The Open University

Open Research Online

Citation

Defis, Nerys (2024). Seeing children as experts: Using participatory methods to explore children's experiences of wellbeing whilst using technology / Gweld plant fel arbenigwyr: Defnyddio dulliau cyfranogol er mwyn ymchwilio i brofiadau plant o'u lles wrth ddefnyddio technoleg. In: Research Conference of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 28 Jun 2024, National Library of Wales, Aberystwyth, Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

URL

https://oro.open.ac.uk/98816/

License

None Specified

Policy

This document has been downloaded from Open Research Online, The Open University's repository of research publications. This version is being made available in accordance with Open Research Online policies available from Open Research Online (ORO) Policies

Versions

If this document is identified as the Author Accepted Manuscript it is the version after peer review but before type setting, copy editing or publisher branding

Nerys Defis
Nerys.Defis@open.ac.uk
The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

Gweld plant fel arbenigwyr

Defnyddio dulliau cyfranogol er mwyn ymchwilio i brofiadau plant o'u lles wrth ddefnyddio technoleg

Cyd-destun

- Mae ein byd yn un cynyddol dechnolegol gyda datblygiadau technolegol yn digwydd ar raddfa gyflym.
- Ceir pwyslais ar baratoi plant heddiw ar gyfer swyddi'r dyfodol sy'n arwain at angen i ddatblygu sgiliau digidol (Llywodraeth Cymru, 2024).
- O ran lles plant a defnydd o dechnoleg mae'r dystiolaeth yn amrywio a rhieni'n cael negeseuon cymysg (OECD, 2018).

Amlinelliad o'r astudiaeth

- Y nod yw archwilio syniadau teuluoedd (yr oedolion a'r plant) am effaith technoleg ar les plant oed cynradd.
- Trwy fethodoleg astudiaeth achos, defnyddir dulliau gweledol i archwilio barn unigolion o fewn pob teulu.
- Mae'r dyluniad yn cysylltu â'r pwyslais cynyddol ar ymgynghori â phlant am eu bywydau (Clark a Moss, 2011).

Cwestiynau allweddol

Cwestiwn 1: Ym mha ffyrdd mae plant yn rhyngweithio gyda thechnoleg?
Cwestiwn 2: Beth sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae plant yn rhyngweithio â thechnoleg?
Cwestiwn 3: Pa effaith a gaiff defnyddio technoleg ar les plant ym marn teuluoedd?
Cwestiwn 4: O fewn y teulu, beth yw'r syniadau am ffyrdd posib o gefnogi lles plant yn ein byd digidol?

Dulliau cyfranogol sy'n defnyddio delweddau

Manteision

- Medru darparu ffyrdd newydd o ddeall cymdeithas (Harper, 2016).
- Gallu hwyluso'r broses o drafod syniadau gyda chyfranogwyr.
- Elfennau cyfranogol yn medru creu diddordeb a chymell (Carter a Ford, 2012; Horgan, 2017).

Anfanteision

- Gellir colli ystyron cudd neu arwyddocâd gwrthrychau – rhaid archwilio a thrafod o gwmpas y delweddau (Leonard a McKnight, 2015)
- Angen ystyried yn ofalus sut mae cadw anhysbysedd (Montreuil *et al.*, 2021).

Y dull llunlais: enghraifft o ddefnyddio dull cyfranogol

- Gan ddefnyddio diffiniad Harper (2016) ystyrir y dull llunlais (photovoice) fel ymchwil sy'n seiliedig ar ddelweddau a dynnwyd gan y cyfranogwyr.
- Roedd plant oed cynradd o fewn teulu yn tynnu ffotograffau o dechnoleg yn eu bywydau bob dydd.
- Er mwyn deall ystyron ac arwyddocâd y lluniau rhoddwyd cyfle i'r plant i drafod y lluniau a'u defnyddio i wneud gweithgaredd creadigol o'u dewis (Carter a Ford, 2013).

Pam defnyddio'r dull llunlais i gasglu barn plant?

- Mae'n ddull sy'n llai dibynnol ar iaith – gall hyn helpu plant i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil.
- Yn ddull cyfranogol gydag elfennau o ddewis ac felly'n:
  - helpu plant i gael mwy o reolaeth
  - cysylltu gyda syniadaeth hawliau plant (Horgan, 2017).
- Gall y dull weithredu fel pont rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwyr, fel petai'n agor y caead a chynorthwyo'r ymchwilydd i ddeall eu syniadau (Leonard a McKnight, 2015).
- Yn broses sy'n galw am ryngweithio rhwng yr ymchwiliwr a'r plant (Rogers, 2017), felly'n cynnig cyfle i gaffael barn a chydadeiladu gwybodaeth.

Cyfeirnodau

Carter, B. a Ford, K. (2013) 'Researching children's health experiences: The place for participatory, child-centered, arts-based approaches', *Research in nursing & health*, 36(1), tt. 95–107.

Clark A. a Moss, P. (2011) *Listening to young children: the mosaic approach.* London, NCB.

Harper, D. (2016) 'The Development of Visual Sociology: A view from the inside'. *SocietàMutamentoPolitica*, *7*(14), tt.237-250.

Horgan, D. (2017) 'Child participatory research methods: Attempts to go "deeper"', *Childhood (Copenhagen, Denmark)*, 24(2), tt. 245–259.

Leonard, M. a McKnight, M. (2015) 'Look and Tell: Using Photo-Elicitation Methods with Teenagers', *Children's Geographies* 13(6), tt. 629–642.

Llywodraeth Cymru (2024) 'Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd Gwaith' yn *Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm*. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm/(Cyrchwyd 3 Mehefin 2024).

Montreuil, M., Bogossian, A., Laberge-Perrault, E., a Racine, E. (2021) 'A Review of Approaches, Strategies and Ethical Considerations in Participatory Research With Children', *International journal of qualitative methods*, 20.

OECD (2018) *Children & Young People's Mental Health in the Digital Age: Shaping the Future.* Paris: OECD.

Rogers, J. (2017) 'Eco-maps and photo-elicitation: Reflections on the use of visual methods in social work research with children and young people', *Journal of Applied Youth Studies*, 1(4).